



Coed gwrych:
atebion i 18 cwestiwn cyffredin



y goedwig hir
long forest

Coed gwrych: atebion i 18 cwestiwn cyffredin



Gwrych cymysg gyda choed gwrych o nifer o oedrannau gwahanol.

Paratowyd ar ran y Grŵp Llywio ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth ar gyfer Gwrychoedd a diweddarwyd yn 2018.



Bydd y llyfryn hwn yn cynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir i wneud penderfyniadau ynghylch sut i annog a gofalu am goed gwrych. Yn benodol, mae'n cynnig cyngor ar sut i blannu a gofalu am goed ifanc fel y bydd cenedlaethau iau i gymryd lle'r coed hynafol sy'n harddu ein cefn gwlad ar hyn o bryd.

C 1. Pam mae coed gwrych yn werthfawr?

Mae coed gwrych yn bwysig am nifer o resymau. Yn y gorffennol, fe'u gwerthfawrogwyd yn fawr am eu pren, a chyda phwyslais cynyddol ar ynni adnewyddadwy, mae'n bosibl y byddant eto'n dod yn ddefnyddiol ar gyfer

tanwydd. Mewn manau lle cedwir da byw, maen nhw'n bwysig ar gyfer rhoi lloches a chysgod, yn arbennig wrth i'r hinsawdd newid ac wrth i'n hafau ddod yn gynhesach, ein gaeafau'n fwy gwlyb ac wrth i ni gael mwy o stormydd a thymhestloedd. Maen nhw'n bwysig iawn ar gyfer bywyd gwyllt, ac mewn



Brithribin brown.

rhai rhannau o'r wlad, maen nhw'n nodedig fel ffynhonnell ffrwythau ar gyfer bwyd a diod. Hefyd mae coed gwrych yn aml yn cuddio hyllbethau a datblygiadau diolwg, ac maen nhw'n gallu diogelu preifatrwydd. Mae llawer o'n tirweddau mwyaf gwerthfawr yn dibynnu ar goed gwrych - hebddynt, byddai rhannau mawr o gefn gwlad yn llwm dros ben.

C 2. Pam mae coed gwrych yn bwysig i fywyd gwylt?

Mae coed gwrych yn darparu amrywiaeth o gynefinoedd mewn un man bach. Ynghyd â'r gwrych, maen nhw'n rhoi cysgod, bwyd, safleoedd nythu, manau canu a chuddfannau,

yn ogystal â bod yn gerrig sarn rhwng cynefinoedd coetir. Mae coed hynafol a hynod yn gartref i lawer o organebau prin ac anarferol nad ydynt i'w canfod yn unrhyw le arall. Mae llawer o adar ffermdir yn defnyddio coed gwrych: mae bodaod yn adeiladu eu nythod mewn canopiau, ac mae cnocellod y coed a golfanod y mynydd yn bridio mewn tyllau. Mae ystumod, gan gynnwys rhai prin megis ystumod duon ac ystumod Bechstein, yn clwydo mewn agennau a thyllau mewn coed. Mae boncyffion coed hynafol yn gallu cynnal cymunedau cyfoethog o gen. Gellir gweld glöynnod byw megis brithribiniau yn chwilota am felwlith o bryfed gleision ac yn dodwy eu hwyau.

yn uchel ar dderi a llwyfenni.

C 3. Faint o goed gwrych sy'n bodoli? O ganlyniad i ddwysâu amaethyddiaeth yn ail hanner yr 20fed ganrif, collwyd miloedd o filltiroedd o wrychoedd, ynghyd â miliynau o goed gwrych. Ac o ganlyniad i achosion o glefyd llwyfen yr Iseldiroedd o ddiwedd y 1960au ymlaen, collwyd tua 20 miliwn o lwyfenni o gefn gwlad, ac o wrychoedd yn bennaf.

Ym 1998, amcangyfrifwyd bod tua 1.8 miliwn o goed gwrych ym Mhrydain Fawr, gyda 98% o'r rheiny yng Nghymru a Lloegr. Ond mae'r ffigwr hwn yn cyfeirio at goed unigol yn unig, sef coed

nad yw eu canopïau'n cyffwrdd. Mae llawer mwy o goed mewn gwrychoedd nad ydynt yn goed unigol, ond nid ydym yn gwybod faint ohonynt sy'n bodoli.

C 4. Beth yw'r coed gwrych mwyaf cyffredin?

Mae rhywogaethau brodorol cyffredin yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru a siroedd y gororau ac mae'r amrywiaeth hwn yn ychwanegu at natur a chymeriad unigryw tirweddau rhanbarthol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae clefydau coed wedi cael effaith fawr iawn. Roedd llwyfenni'n goed gwrych cyffredin hyd nes lledaeniad clefyd llwyfen yr Iseldiroedd.

Y dderwen yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin o goedden wrych yn genedlaethol; dyma un yng Nghanolbarth Cymru. Llundain: Cadwch Gymru'n Daclus.



Mae deri ac ynn, sef ein coed mwyaf cyffredin ar hyn o bryd, bellach yn agored i Ddirywiad Difrifol Coed Derw a Chlefyd Gwywo Coed Ynn. Ar gyfer plannu gwrychoedd a choed, rydym yn argymhell, pryd bynnag y bo'n bosibl, eich bod yn prynu planhigion rhywogaethau brodorol a dyfwyd gan dyfwyr lleol. Bydd y gwreiddgyffion hyn wedi addasu'n dda i amodau lleol, byddant yn sefydlu'n fwy llwyddiannus, a hefyd bydd hyn yn helpu i leihau lledaeniad clefydau coed o un rhanbarth i ranbarth arall. Ynghyd â'r rhywogaethau coed mwy o faint, mae mwyar, eirin surion bach, eirin ysgaw ac afalau surion bach yn ffynonellau bwyd da ar gyfer bywyd gwyllt a defnyddir y blodau a'r ffrwythau hyn yn draddodiadol wrth goginio ac i roi blas i alcohol.



Ucheldiroedd Cymru'n frith o wrychoedd a choed. Llundain: Cadwch Gymru'n Daclus.

C 5. Beth yw'r dyfodol ar gyfer coed gwrych?

Nid ydym yn gwybod cymaint am oroesiad a recriwtiad coed gwrych ag yr hoffem, ond gwyddom fod llawer rhy ychydig o goed ifanc i gymryd lle coed gwrych aeddfed sy'n bodoli pan ddaw bywydau'r rhain i ben. Dangosodd arolwg ym 1998 bod llai na 1% o goed gwrych yn y dosbarth oedran ifancaf (sef un i bedair blwydd oed). Os na



*Coed gwrych a ddewiswyd wrth blygu gwrych.
© Banc Delweddau'r Cyngor Coed.*

fyddwn yn gweithredu nawr i blannu coed gwrych newydd neu i ddiogelu'r coed ifanc sydd eisoes yn tyfu mewn gwrychoedd, bydd ein cefn gwlad yn edrych yn wahanol iawn yn y dyfodol.

C 6. Sut allaf sefydlu coed gwrych newydd?

Mae nifer o ffyrdd o sefydlu coed gwrych newydd. Gallwch ddewis coed ifanc (neu dyfiant newydd addawol o goeden a fondociwyd) sydd eisoes mewn gwrych; gallwch blannu coed mewn bylchau sy'n bodoli; gallwch greu bylchau newydd lle gallwch blannu drwy dorri rhiciau mewn gwrych; gallwch blannu coed wrth ymyl gwrych yn hytrach nag o'i fewn; neu gallwch glustnodi coed ifanc mewn gwrych newydd ar gyfer eu tyfu'n goed aeddfed. Meddyliwch yn ofalus am wifrau uwchben megis gwifrau trydan a allai achosi problemau yn y dyfodol, a'r perygl o rwystro ffyrdd, llwybrau a hawliau tramwy.

Wrth chwilio am goed ifanc, dewiswch rai sy'n tyfu'n syth i fyny'r holl ffordd o'r bôn. Dylai hyn gynhyrchu boncyff cryf o'i ddiogelu rhag torri. Gallai coed a dyfir o goesynnau sydd wedi'u ffustio, eu plygu neu eu bondocio fod wedi'u niweidio mor wael fel y byddant yn wan a sigledig pan fyddant yn aeddfed. Yn aml, mae'n haws dewis a diogelu coed ifanc addas adeg plygu neu fondocio gwrych.

Bydd llawer o wrychoedd heb goed ifanc addas, ac mae hyn yn arbennig o wir am wrychoedd trwchus o un rhywogaeth megis drain gwynion neu ddrain duon. Mewn achosion o'r fath, byddai'n well plannu coed mewn bylchau. Defnyddiwch fylchau sy'n bodoli os oes modd oherwydd bydd llai o gystadleuaeth gan y planhigion sy'n bodoli. Fel arall, plannwch mewn rhic a dorrwyd yn y gwrych.

Efallai bod plannu coed wrth ymyl gwrychoedd yn gallu cymryd mwy o le, ond mae hyn yn fuddiol o ran cynyddu lled y gwrych a'i werth i fywyd gwyllt. Hefyd, mae'n bosibl y bydd hyn yn gwneud y gwrych yn haws ei dorri yn y dyfodol. Bydd llai o gystadleuaeth ymysg y gwreiddiau am faeth a dŵr, ac felly mae'n debygol y bydd y coed yn tyfu'n gynt. Fodd bynnag, ceisiwch beidio â phlannu coed mewn cynefinoedd gwerthfawr megis glaswelltir sy'n llawn perlysiau.

Mae plannu coed wrth greu gwrych newydd yn ffordd effeithiol iawn o greu coed gwrych newydd. Yn ddelfrydol, defnyddiwch rywogaethau sydd eisoes yn tyfu yn yr ardal, a buddsoddwch mewn planhigion cryf. Erbyn hyn, ystyrir bod angen polion neu gynalyddion eraill ar gyfer coed sydd dros 1m o daldra yn unig, ac yn eu blwyddyn gyntaf yn unig. Ar ôl plannu, defnyddiwch bolyn marcio a thag coeden os oes angen, i helpu



Coeden ifanc â chysgod mewn gwrych.

i atal y coed rhag cael eu torri gyda gweddill y gwrych.

C 7. Pa mor agos ddylai fy nghoed gwrych newydd fod?

Dylai coed ifanc fod yn ddigon pell oddi wrth ei gilydd i'w galluogi i ddatblygu corunau llawn heb gystadlu neu greu gormod o gysgod. Bydd llawer o ffermwyr eisiau eu gosod yn bellach oddi wrth ei gilydd gan fod torwyr mecanyddol yn ei chael yn anodd gweithio rhwng coed sy'n agos at ei gilydd. Ceisiwch amrywio'r pellteroedd rhwng coed er mwyn creu tirwedd fwy naturiol. Edrychwch o'ch amgylch i weld beth fyddai'n fwyaf priodol.

C 8. Coed o ba faint y dylid eu plannu? Mae chwipiau (coed sy'n 1 i 1.5m o daldra) yn rhad, yn hawdd eu symud

ac fel arfer maen nhw'n sefydlu'n well na choed mwy o faint. Fodd bynnag, mewn gwrych newydd, i gychwyn ni fydd llawer o wahaniaeth amlwg rhwng y coed a gweddill y planhigion. Dylid nodi'r coed ar gynlluniau'r gwrych neu eu tagio a'u diogelu rhag torri. Wrth blannu mewn bwlch mewn gwrych sefydlog, argymhellir coed mwy o faint, naill ai coed pluog (tua 2 fetr o daldra) neu goed 'safonol' (tua 3 metr o daldra), yn dibynnu ar daldra'r gwrych.

C 9. Pryd ddylwn i blannu coed gwrych? Gallwch blannu coed â gwreiddiau noeth ar unrhyw adeg rhwng mis Hydref a mis Mawrth, ond peidiwch â phlannu pan mae'r ddaear wedi rhewi. Er y gellir plannu coed a dyfwyd mewn potiau drwy gydol y flwyddyn, os byddwch yn plannu ar ddiwedd y gwanwyn neu yn



Tagio coed.

Ⓜ Banc Delweddau'r Cyngor Coed.

ystod yr haf, dylid dyfrio'r coed yn ystod cyfnodau sych drwy gydol y tymor tyfu cyntaf.

C 10. A ddylwn i ddefnyddio lloches goed?

Mae llochesi coed yn annog tyfiant cyflymach, maen nhw'n gwneud coed ifanc yn fwy amlwg ac felly'n haws gofalu amdanynt, maen nhw'n amddiffyn rhag anifeiliaid sy'n pori, ac maen nhw'n gwneud rheoli chwyn yn haws. Ar y llaw arall, maen nhw'n gallu edrych yn hyll a bydd angen eu tynnu oddi ar y coed wedi iddynt gyflawni eu

pwrpas - ar ôl tair i bum mlynedd fel arfer. Ar y cyfan, yn gyffredinol mae'n well eu defnyddio, ond ewch i weld y llochesi o bryd i'w gilydd a thynnu unrhyw laswellt a chwyn sy'n tyfu ynddynt.

C 11. A fydd angen i mi reoli chwyn?

Tynnwch neu hofiwch unrhyw laswellt neu chwyn sydd o fewn 0.5 metr i'r goeden a blannwyd. Gorchuddiwch y man a gliriwyd gyda gorchudd o domwellt neu naddion rhisgl neu brysgwydd, neu hen ddarn o garped. Mae hyn yn helpu i gadw lleithder wrth y gwreiddiau a lleihau cystadleuaeth gan chwyn. Neu gallwch ddefnyddio chwynladdwr i gael gwared ar unrhyw laswellt a chwyn, ond byddwch yn ofalus rhag difrodi'r gwrych ei hun nac unrhyw fflora diddorol sydd ar y llaw.

C 12. Sut ddylwn i ddiogelu coeden wrych ifanc?

Mae tagiau lliwgar yn ffordd hawdd o helpu torwyr gwrychoedd i osgoi torri coed gwrych ifanc. Ond er mwyn i dagiau weithio, mae'n rhaid rhybuddio gweithredwyr peirannau i chwilio am goed a nodwyd a'u hosgoi. Mae'n rhaid gofalu am goed ifanc am nifer o flynyddoedd hyd nes eu bod yn ddigon mawr i'w gweld yn amlwg. Mae diogelu coed ifanc yn ymrwymiad hirdymor.

Ceir cyfleoedd i wirfoddolwyr ledled Cymru gymryd rhan mewn tagio coed, monitro iechyd coed, cofnodi coed

hynafol a hynod ac arolygu gwrychoedd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r prosiect hwn, Coed Cadw neu'r Cyngor Coed.

Wrth dagio coeden, tociwch y gwrych â llaw am tua 1 metr bob ochr i wneud y goeden ifanc yn fwy amlwg. Wedyn, gallwch naill ai osod tag ar y goeden os gallwch ei chyrraedd, neu roi'r tag ar roden gyferbyn â'r goeden ifanc. Gorau oll fyddai rhoi polyn cryf ac amlwg yn y gwrych ar bob ochr neu nesaf at y goeden ddewisedig. Yn olaf, cadwch gofnod o'r coed a dagiwyd gennych, ac

ewch i'w gweld bob blwyddyn er mwyn ailosod tagiau a gollwyd ac i gofnodi cyfraddau goroesi.

C 13. A fyddai torri gwrychoedd mewn modd gwahanol yn cynhyrchu mwy o goed gwrych?

Gall y ffordd y caiff gwrychoedd eu torri gael effaith sylweddol ar goed. Mae bosibl bod gwrych ar ffurf 'A' yn well na'r ffurf sgwâr fwy arferol oherwydd bod coed yn gallu tyfu i fyny trwy ganol y gwrych am gyfnod hirach, gyda llai o berygl o gael eu torri. Fodd bynnag, os torrir top y gwrych, bydd coed ifanc yn

Coed yn dangos tystiolaeth o'u rheolaeth fel gwrych yn y gorffennol.
Llun: Cadwch Gymru'n Daclus.





Gwirfoddolwyr yn cofnodi coed hynafol a nodedig gyda Choed Cadw, Cwm Elan. Llun: Cadwch Gymru'n Daclus.

cael eu niweidio beth bynnag yw ffurf y gwrych. Felly ceisiwch nodi coed ifanc addawol a'u tagio, i sicrhau na fyddant yn cael eu difrodi wrth dorri'r gwrych.

C 14. A yw tocio'n syniad da?

Mae tocio, sef torri corun coeden ar daldra o 1.8 i 4.5 metr, ar gyfnodau rheolaidd drwy gydol bywyd y goeden, wedi bod yn ffordd boblogaidd o reoli coed gwrych drwy gydol hanes. Ar ôl tocio, bydd y boncyff yn tyfu blagur ar uchder sy'n eu cadw'n ddiogel rhag anifeiliaid sy'n pori, gan gynnwys ceirw. Yn aml, mae gan hen goed a dociwyd fel hyn gymeriad eithriadol, ac mewn rhai rhannau o gefn gwlad, mae coed hynafol o'r fath yn nodi ffiniau plwyfi. Mae gan docio effaith ryfeddol ar

goed, ac yn aml mae'n galluogi coeden i gyrraedd oedran llawer hŷn. Mae tocio'n cadw coeden yn fywiog trwy amharu ar y broses heneiddio arferol, a chan fod y corun yn llai o faint, mae'n lleihau'r posibilrwydd o ddifrod gan storm. Felly yn aml iawn, mae'n syniad da! Fodd bynnag, cymerwch gyngor cyn ceisio tocio coeden hŷn, a gwiriwch a yw'n destun Gorchymyn Cadw Coed.

C 15. Pam mae coed â changhennau marw mewn gwrychoedd?

Pan mae coeden yn tyfu'n hen, mae'n bosibl nad yw'r canghennau uchaf yn gallu cael unrhyw ddŵr, ac mae'r canghennau hyn yn marw yn ôl. Mae hyn yn rhan naturiol o gylch bywyd y goeden: nid yw'n golygu bod yr holl goeden ar fin marw. Mae coed â changhennau marw'n gallu parhau i fyw am nifer o ddegawdau neu ganrifoedd hyd yn oed, ac yn aml maen nhw'n brydferth iawn. Mewn coed iau, mae canghennau'n gallu marw o ganlyniad i sychder, clefyd, difrod gan bryfed, amharu ar y gwreiddiau, llosg haul (mewn ffawydd) neu lygredd, ac mae'n ymateb naturiol i straen. Ceisiwch ddarganfod beth a'i hachosodd, i weld a oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i liniaru'r broblem. Gallai tocio helpu i gadw'r goeden yn fyw.

C 16. Beth yw'r ffordd orau o reoli gwrych o lwyfenni?

Bydd llwyfenni mewn gwrychoedd yn

tyfu hyd nes iddynt gyrraedd maint sy'n eu gwneud yn ffynhonnell addas o fwyd i'r chwilen risgl sy'n cario clefyd llwyfen yr Iseldiroedd. Mae hyn fel arfer yn cymryd 20 i 30 mlynedd. Er y bydd y prif fonion yn marw, fel arfer bydd system y gwreiddiau'n goroesi gan alluogi'r coed i aildyfu o grachgoed gydag amser. I gadw gwrych o lwyfenni yn edrych yn iach, ystyriwch fondocio'r bonion mwyaf bob 20 i 30 mlynedd, cyn i'r chwilod heintio'r coed eto. Yn anffodus, ar hyn o bryd ni wyddwn am unrhyw ffordd o gael gwared yn barhaol ar y clefyd o wrychoedd.

C 17. A yw'r cysgod y mae coed gwrych yn ei daflu yn broblem?

Mae coed gwrych mwy o faint yn gallu taflu cysgod dros gnydau a glaswellt, gan achosi rhywfaint o golled economaidd. Bydd yr effaith yn llai mewn gwrychoedd sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de, a lle mae ymylon caeau'n cael eu gadael heb eu trin. Hefyd mae'r cysgod yn gallu achosi bylchau yn y gwrych oddi tano – gellir lleihau'r broblem hon drwy gael gwared ar y canghennau is a phlannu llwyni sy'n gallu goddef cysgod megis celyn. Ar yr ochr positif, mae cysgod yn llesol i anifeiliaid sy'n pori, i adeiladau fferm ac i ni, yn arbennig ar ddiwrnodau poeth o haf, a gallwn ddisgwyl mwy ohonynt wrth i'r hinsawdd newid.

C 18. A oes cyllid ar gyfer coed gwrych? Yn aml, bydd cyllid i blannu gwrychoedd ac i ffensio ar gael drwy raglenni amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Mae gan Goed Cadw hefyd nifer o ffyrdd o gynorthwyo tirfeddianwyr i blannu coed trwy gyfrwng ei gynlluniau cyllido ei hun, gan gynnwys gwrychoedd a choed gwrych. Cysylltwch â'i dîm Creu Coetiroedd er mwyn cael cymorth a chyngor gyda'ch prosiect plannu (0330 333 5303 neu woodlandtrust.org.uk/enquiry).



Derwen â changhennau marw.

Gellir lawrlwytho cynnwys y pecyn hwn o www.longforest.cymru/cy/hefyd.

Am ragor o gymorth neu gyngor cysylltwch â longforest@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, gan weithio mewn partneriaeth â Choed Cadw, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmée Fairbairn, wedi datblygu prosiect y Goedwig Hir, Ynghyd, byddwn yn gweithredu'n ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o wrychoedd yng Nghymru.

Mae'r gyfres hon o lyfrynnau yn seiliedig ar y rhai mewn pecyn cynharach a gynhyrchwyd gan Hedgelinek UK a Natural England. Rydym yn ddiolchgar am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu eu deunydd yn y cyhoeddiad dwyieithog hwn, sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddiwygio.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% gan ddefnyddio inciau llysieuol gan Symposium Print, Llandŵ, CF71 7PF info@symposiumprint.co.uk



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



**Funding raised by
The National Lottery**
and awarded by the Heritage Lottery Fund

**Cyllid a godwyd gan
Y Loteri Genedlaethol**
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri



y goedwig hir
long forest